

Achos “Ioan Marc”

“Bydded eich hynawsedd yn hysbys i bob dyn.” (adn. 5)

Beth am ddarllen Philipiaid 4:1–9 ac yna myfyrio

Ychydig flynyddoedd yn ôl cefais wahoddiad i bregethu mewn eglwys oedd mewn perygl o rannu oherwydd achos tebyg i achos Ioan Marc. Roedd gan yr eglwys ddau arweinydd, y ddau yn gymeriadau cryf. Yr oedd y naill yn teimlo y dylid mynd â'r eglwys i un cyfeiriad, a'r llall yn teimlo y dylid mynd i gyfeiriad cwbl wahanol. Yr oedd y ddau yn gwybod fod yna aelodau yn y gynulleidfa oedd yn dawel yn dechrau cymryd y naill ochr neu'r llall mewn perthynas â'r achos. Ond roedd yn yr eglwys hefyd adran o gredinwyr oedd yn gweddïo ar i ewyllys Duw gael ei datguddio.

Fe'm gwahoddwyd i bregethu ynghanol yr anghytundeb yma, gan gynnig yn destun i'm sylwadau: ‘diogelu undod yn wyneb gwahaniaethau barn’. Cymerais fel testun yr adnod yr oeddem yn edrych arni ddeuddydd yn ôl: “Mae'r sawl nad yw yn casglu gyda mi yn gwasgaru” (Mathew 12:30). Mae'r adnod hon yn dysgu yn ddiamheuol ein bod, wrth wneud Iesu yn Feistr ac wrth geisio ei ddilyn ef, yn darganfod undeb yn yr Arglwydd ac nid mewn rhyw berson, rhyw syniad, neu ryw athroniaeth, ac mae hyn yn ein galluogi i godi uwchlaw gwahaniaeth barn.

Ar ôl y bregeth, bu i ni eistedd o amgylch y bwrdd cymun, a dywedodd un o'r arweinwyr: “Mae fy mherthynas â Iesu mor bwysig i mi fel nad wyf am wneud dim i amharu ar gyflwr fy enaid na chyflwr enaid neb arall o'i bobl. Nid wyf am bwysu yr achos yma, ond yr wyf am aros nes derbyn yr arweiniad sydd gan Dduw ar ein cyfer ni.” Bu i'r arweinydd arall, yn yr un modd, ddweud rhywbeth tebyg. O fewn ychydig fisoedd, wedi gweddïau ac ymprydïau o fewn yr eglwys, arweiniodd yr Arglwydd hwy ar hyd llwybr oedd yn wahanol iawn i lwybr y ddau arweinydd. Bu i ras orchfygu. Bu iddynt gyflawni'r gorchymyn sydd yn ein testun heddiw, sef bod eu hynawsedd a'u parodrwydd i ildio yn cael eu amlygu i bawb.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 5:23–24; 1 Cor. 5:6–8; 11:17–34; Eff. 5:21; 2 Tim. 2:14–24

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut all cymundeb gynorthwyo i ateb anghytundeb?
2. Beth yw ein hymateb ni pan mae pobl yn ein gwrthwynebu?

Gweddï

Arglwydd, wrth i ni wynebu achosion sydd am ein gwahanu, cynorthwya ni i ddiogelu undod dy gorff di. Cynorthwya i'r pethau hyn ein tynnu yn agosach at ein gilydd, er mwyn i'th enw di gael ei ogoneddu yn dy Eglwys. Er mwyn dy enw. Amen.